# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 06.02.2023

**Yn bresennol:** Arwyn Williams (Ysgol Brynrefail) (Cadeirydd)

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Beca Brown (Addysg) ac Ioan Thomas (Cyllid)

**Pennaeth Cyllid:** Dewi A Morgan

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Neil Foden (Ysgol Friars) a Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog)

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal)

**Llywodraethwyr:** Y Cynghorydd Gwynfor Owen (Dwyfor), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Dwyfor) a Carys Fowles (Meirionnydd)

**Ysgolion Eglwys:** Joanna Thomas (Ysgol y Faenol)

**Ysgolion Arbennig:** Donna Roberts (Ysgol Hafod Lon)

**Esgobaeth:** Neb yn bresennol

**Cynrychiolydd yr Undeb:** Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen)

**Sylwedydd:** Neb yn bresennol

**Swyddogion:** Garem P Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg)
Kathy W Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad)
Rhys M Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd)
Dr Diane Pritchard Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Addysg)
Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol)
Einir Davies (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth)

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol Donna Roberts, Pennaeth Ysgol Hafod Lon, yn Is-Gadeirydd y Fforwm am 2022/23.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Richard Jones (Ysgol Garndolbenmaen), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn) ac Edward Bleddyn Jones (Llywodraethwr, Arfon)
Derbyniwyd ymddiheuriadau hwyr gan Aled Williams (Ysgol Ardudwy) a Brian Jones (Llywodraethwr, Arfon)

## 3. ENWEBIADAU NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf :
Dr Diane Pritchard Jones
Joanne Thomas
Cynghorydd Gwynfor Owen
Carys Eleri Fowles
Brian Jones (yn ei absenoldeb)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2022 fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i'r cywiriadau canlynol :
'Roedd Eleri Davies yn bresennol yn y cyfarfod fel Aelod ac fel Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mae angen cynnwys enw yr Ysgol mae R Jones yn ei gynrychioli

## 7. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Atgoffwyd y Fforwm bod cais am ragor o wybodaeth am y Cynllun Buddsoddi i Arbed wedi ei wneud yn y cyfarfod blaenorol a chadarnhawyd bod y Cynllun yn benodol i wasanaethau mewnol y Cyngor, ond bod croeso i ysgolion wneud cais unai trwy y swyddogion addysg, neu yn uniongyrchol drwy y Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg.

i. Canolfannau Iaith

Atgoffodd y Pennaeth Addysg am y bwriad gwreiddiol i ofyn i ysgolion gyfrannu yn ariannol i'r cynllun trochi, er nad oedd hon y flwyddyn fwyaf delfrydol i wneud hyn. Cadarnhawyd bod arian wedi ei ddarganfod ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2023/24 ac na fyddai yr Adran yn mynd ar ofyn ysgolion. Ategodd yr Aelod Cabinet Addysg ei balchder o allu rhannu y newyddion hyn. Nododd y Cadeirydd ei fod yn newyddion da i bawb, a nododd, yn sgil yr heriau mae ysgolion yn eu hwynebu, tybed fyddai modd cael gwybod y sefyllfa am y blynyddoedd ôl-2023/2024 cyn gynted â phosib?

ii. Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Adroddwyd bod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn amrywio a bod y Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg yn y broses o'u craffu. Yn arferol, cadarnhawyd y

byddai y cytundebau yn cael eu mabwysiadau gan ysgolion yn Ebrill, ond er mwyn gallu gwneud y gwaith craffu arnynt fod bwriad ymestyn y cytundebau presennol ar y tro. Nodwyd y gobaith o ddenu mwy o ysgolion i ymrwymo iddynt. Nodwyd bod ambell i Gytundeb yn codi cwestiwn, mae rhai ysgolion wedi gofyn am gyflwyniad ar rai Cytundebau a rhai Cytundebau ble mae angen mwy o fanylder. Cadarnhawyd y bydd yr Adran yn holi am y caniatâd i ymestyn cytundebau.

## 8. STRATEGAETH GYLLIDOL 2023/2024

Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid, o dan y penawdau isod :

Yr Amserlen o ran penderfynu ar a cheisio cael cytundeb ar y Strategaeth Gyllidol
Y Gyllideb Refeniw : Yr Hafaliad
Rhagolygon Cyffredinol Cyllideb 2023/24
Chwyddiant Cyflogau o £14.2M
Chwyddiant ar Wasanaethau a Chyflenwadau o £11.1m

Cyfeiriwyd at y Demograffi Gofal ac Addysg, gan nodi bod Gofal Plant yn £32k, ac Ysgolion yn £229K, hynny yw :

| | |
|---|---|
| Ysgolion Cynradd | (£135k) |
| Ysgolion Uwchradd | £49 |
| Ysgolion Arbennig | £315K |

Yn seiliedig at leihad (cynradd) / cynnydd (uwchradd/arbennig) mewn nifer disgyblion

Tynnwyd sylw hefyd at y :
Setliad Grant 2023/2024, a'r Pwysau ar Wasanaethau, gan nodi - Bidiau Refeniw Parhaol £2.7m - Adran Addysg - darparu cinio ysgolion Cynradd, Dilynol ac Arbennig £285,580

Cyfeiriodd hefyd at benawdau :

Bidiau Refeniw - Addysg yn £285,580
Cynlluniau Arbedion Cynlluniedig
Rhagolygon Cyfredol Cyllideb 2023/24
Hafaliad 2023/24

Cyfeiriodd yn benodol at Arbedion Ysgolion, gan nodi bod :

Trafodaethau wedi cychwyn ar 6%
Paratoi ar gyfer 3%
Rhai ysgolion yn wynebu gormodedd - ond nid oherwydd y toriad arfaethedig
Hepgor Ysgolion Arbennig
Effaith y gyfundrefn warchodaeth i ysgolion bychan = pawb arall yn gorfod cyfrannu mwy
Rhai ysgolion yn cael ei gwthio dros y 3%
Felly cynnig cap o 3%
Arbediad ar draws y sector felly yn 2.39%
1.39% a 0.99% dros ddwy flynedd

Cynlluniau Arbed Newydd

| | 23/24 | 24/25 | cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 541,600 | 386,900 | 928,500 |
| Ysgolion Uwchradd | 605,000 | 432,600 | 1,037,600 |
| Ysgolion Arbennig | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 1,146,600 | 819,500 | 1,966,100 |

Cynlluniau Arbed Newydd 2023/24

| | |
|---|---|
| Arbedion Adrannau (heb gynnwys ysgolion) | £3,097,370 |
| Arbedion Ysgolion | £1,146,600 |

Cynlluniau Arbed Newydd 2023/24 Addysg Ganolog yn £835,000

Nododd hefyd Treth Cyngor a Rhagolygon 2024/25

Diolchwyd am y cyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Cyllid ar y drefn a gymerwyd i ddod i benderfyniad ar y toriadau arfaethedig, gan nodi bod y Cabinet wedi ceisio bod yn deg, ac wedi ystyried Adrannau y Cyngor i gyd, gan edrych ar gynigion arbedion dros dri dydd. Nododd bod rhai materion positif wedi codi megis y setliad wedi bod mymryn yn well na'r disgwyl, bod swm wedi dod i law o ran ffordd y Cyngor o ymdrin â benthyciadau, ac roedd yn teimlo fod y Cabinet wedi gwneud eu gorau dros bob Adran. Nododd y Pennaeth Addysg bod sylw priodol a herio pob Pennaeth Gwasanaeth wedi digwydd, ac mae nid ar chwarae bach yr ystyriwyd toriadau i addysg.

Nododd y Cadeirydd nad oes neb byth yn hoff o doriadau, a chwestiynwyd beth yw effaith toriadau canolog ar ysgolion? Cadarnhawyd bod unrhyw ardrawiad ar ysgolion wedi ei gadw i'r lleiafrif, ac y bydd unrhyw effaith ar GwE yn cael ei drafod ar lefel Prif Weithredwyr.

Ar gais y Cadeirydd cadarnhawyd bod y ffigyrau yn ymdrin â 2023/2024 a 2024/2025 a bod y Cyngor yn ceisio cynllunio fesul dwy flynedd. Nodwyd wrth gwrs nad yw yn wybodus beth fydd y ffigwr chwyddiant yn y dyfodol, ond bod yr Adran Gyllid yn gweithio ar sail y bydd y toriadau hyn yn ddigonol, ond wrth gwrs yn methu a gwarantu. Atgoffodd y Pennaeth Addysg pawb bod y % wedi ei rannu fel bod y flwyddyn gyntaf yn drymach gan fod gan ysgolion fwy o falansau y flwyddyn hon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. INTEGREIDDIO 2023/2024

Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad grynodeb o'r sefyllfa bresennol, gan gadarnhau fod y dull dyrannu presennol yn gweithio. Cadarnhaodd bod gwaith tacluso y data a'r ffordd o gofnodi ar y gweill, ond ei bod yn disgwyl PLASC ar gyfer 2023/23 ar hyn o bryd.

Holodd y Cadeirydd am sgil-effaith hyn a chadarnhawyd Ebrill 2023 fel dyddiad arfaethedig, ond y bydd materion yn symud yn raddol. Cadarnhawyd os oes materion o bryder gyda'r data, yna bydd yn cael ei symud i Fedi 2023. Cadarnhawyd bod y canllaw ar gyfer cwblhau y PLASC eisoes wedi eu rhannu, a chadarnhawyd na ddylai dosbarthu mewn ffordd wahanol gael effaith sylweddol ar ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.**

## 10. UNRHYW FATER ARALL

Dim yn codi.

## 11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4.25 y.h..